**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19eg Gorffennaf 2010**

**Rhagolygon Cyllid 2011/12**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr adroddiad

1 Mae'r papur hwn yn cynrychioli'r broses gychwynnol o osod y gyllideb ar gyfer 2011/12. Mae'n ceisio cyflwyno'r pwysau y gwyddwn y bydd ar y gyllideb dros y flwyddyn ariannol nesaf ac amlinellu'r hyn a wyddwn a'r hyn na wyddwn ynghylch y rhagolygon cyllid dros y blynyddoedd

## Cefndir

2 Ym mis Gorffennaf, yn flynyddol, caiff adroddiad ar ragolygon cyllideb ei chyflwyno i'r Panel Gweithredol ac ynddi ceir rhestr o'r pwysau ariannol ar gyfer y flwyddyn ganlynol a fydd yn dangos pa bwysau talu a phrisio y dylid eu cynnwys yng nghyllideb y flwyddyn sydd i ddod fel y gall yr Awdurdod ddynodi pa bwysau y gellir ac na ellir eu hariannu.

3 Nid yw'r flwyddyn hon yn wahanol ar wahân i'r ffaith fod y modd y caiff cyd-destun y gyllideb ei chreu yn gwbl wahanol. Mae'r Llywodraeth newydd wedi gosod eu hamcanion ariannol mewn cyllideb frys ar 22ain Mehefin 2010. Eu strategaeth ar y cyfan yw lleihau'r diffyg ariannol cenedlaethol o £156 biliwn ymhen pedair blynedd, yn bennaf drwy leihau gwariant yn y sector gyhoeddus.

4 Mae'n anodd deall, yn bresennol, beth a olygir gan hyn. Er bod toriadau gwirioneddol o 20% dros bedair blynedd wedi eu trafod, nid yw hyn yn dwyn i ystyriaeth y cyllidebau y caiff eu diogelu

(i raddau) megis addysg, iechyd a chymorth dramor. Golyga hyn y bydd y toriadau yn digwydd mewn mannau na chaiff eu diogelu megis gwasanaethau llywodraeth leol.

5 Cymhlethdod arall sydd gennym yw'r ffaith fod yr Awdurdod yn gweithio o fewn gweinyddiaeth ddatblygedig sydd yn golygu fod lefel ychwanegol i'r penderfyniad ar sut y bydd yr arian a ddyfarnir i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn cael ei ddyrannu. Golyga'r gwahaniaeth yn y cymhlethdodau gwleidyddol rhwng San Steffan a LlCC y bydd blaenoriaethau gwahanol yng Nghymru a dymuniad i ddiogelu gwahanol wasanaethau. Fodd bynnag, os yw'r toriadau ariannol yng Nghymru ar lefel debyg i'r rhai a awgrymir ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub Lloegr yna, yn anochel, bydd hyn yn cael effaith ar y gwasanaethau rheng flaen a bydd rhaid ailffurfio'r Gwasanaeth a lefel y ddarpariaeth.

6 I gymhlethu materion ymhellach mae un o Weinidogion y Trysorlys wedi cyhoeddi'n ddiweddar y dylid ystyried lleihad o 40% yng ngwariant llywodraeth ganolog yn ystod y cyfnod cynllunio fel rhagflaenydd i'r ad-drefnu radical yn swyddogaeth y Wladwriaeth.

## Gwybodaeth

7 Man cychwyn cyllideb Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru y flwyddyn nesaf yw'r gyllideb refeniw gyfredol ar gyfer 2010/11 sydd yn £32 miliwn.

8 Gan fod 75% o'r gyllideb yn cynrychioli costau gweithwyr, ac mae codiadau cyflog yn dylanwadu'n fawr ar anghenion y gyllideb. Fel y bydd Aelodau eisoes yn ymwybodol mae codiadau cyflog yn cael eu trafodi a'u cytuno yn genedlaethol. Yn ddiweddar mae'r llywodraeth ganolog wedi datgan y dylid rhewi tâl yn y sector gyhoeddus am y ddwy flynedd nesaf, sydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2011.

9 Yn dilyn y datganiad yma yn ystod y gyllideb frys fe gyflwynodd y Cyflogwyr lythyr i Undeb y Frigad Dân yn datgan na fyddant yn gwneud cynnig ar gyflogau ar gyfer 2010/11. Oni bai y bydd y penderfyniad yma yn cael ei adolygu dros y ddwy/dair blynedd nesaf, dyma'r tâl tybiedig y dylid ei ddefnyddio yn ystod y broses o osod cyllideb.

10 Yn anochel, bydd codiad yn y taliadau cyfalafol yn 2010/11. Mae hyn o ganlyniad i wariant yn y rhaglen gyfalaf sydd wedi digwydd yn barod ac y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i'w talu. Mae cynllunio cyfalaf cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dynodi lleihad mewn adnoddau cyfalaf dros y blynyddoedd ariannol nesaf.

11 Ffactor arall sydd yn anhysbys yw chwyddiant cyffredinol. Y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer Mai 2010 yw 5.1% a'r mynegai prisiau defnyddwyr yn 3.4%. Fodd bynnag mae'r chwyddiant mewn tanwydd a nwyddau a gwasanaethau eraill yn anrhagweladwy ac y mae'n anodd rhagweld beth fydd costau eitemau angenrheidiol megis tanwydd a chostau ynni.

12 Yn y tymor byr rydym yn rhagweld y bydd LlCC yn cadw at y cytundeb i barhau i ariannu costau refeniw Firelink, a chostau hyfforddiant a chynnal a chadw adnoddau "New Dimensions" a chostau offer diogelu'r gymuned. Fodd bynnag mae dyfodol hir dymor y grantiau yma yn ansicr ac efallai y bydd rhaid i'r gweithgareddau hyn gael eu hariannu gan y brif gyllideb refeniw.

13 Er yr ansicrwydd ynghylch y rhagolygon cyllid mae'n anochel y bydd grant cynnal refeniw'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn gostwng mewn termau real. Fe ymddengys bod awdurdodau lleol yn cynllunio ar gyfer lleihad o 3% (o flwyddyn i flwyddyn) dros y cyfnod cynllunio.

## Argymhelliad

14 Gofynnir i Aelodau:

(i) nodi'r pwysau a rhagolygon cyllid uchod;

(ii) oherwydd lefel yr ansicrwydd ynghylch y rhagolygon ariannol a'r angen i benderfynu a gweithredu newidiadau mewn amgylchedd sydd yn newid yn gyflym. Mae'r Swyddogion yn argymell y dylai is-grŵp, o bosib y Gweithgor Lleihau Risg, ymgymryd â gwaith pwyllgor datblygu cyllideb a chwrdd yn rheolaidd dros yr haf a'r hydref i ystyried yr opsiynau ariannol a gwasanaeth.